# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych

RHIFYN 15

Gwanwyn/Haf 2025


## Tenantiaid Tai Sir Ddinbych yn creu cymuned gref mewn datblygiad tai newydd sbon ym Mhrestatyn.

Darllennwch y stori lawn ar dudalen 5














**Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR)** Tudalen 6

**Dewch i gyfarfod ein Tîm Cymorth Tenantiaeth** Tudalen 4

**Ymwybyddiaeth o dwyll** Tudalen 14



Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

www.taisirddinbych.co.uk

@TaiSirDdinbych

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# Croeso

Geoff Davies, Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol



***Rydym wedi mwynhau dechrau da i dymor y gwanwyn, felly gadewch i ni obeithio am ragor o dywydd braf yn ystod y misoedd i ddod.***

Mae tywydd braf a dyddiau hirach yn rhoi mwy o gyfle i ni fynd allan i'n cymunedau. Gan roi cyfle i ni sgwrsio gyda'n cymdogion a mwynhau'r mannau agored lle rydym yn byw. Mae bod yn yr awyr agored yn gwneud i ni deimlo'n well ac yn gwneud daioni i'n hiechyd a'n lles.

Rydym bob amser yma i helpu unrhyw un sydd eisiau rhoi cynnig ar bethau yn eu cymuned. Mae gennym gymaint o enghreifftiau o bobl yn ein cymunedau sy'n gwneud pethau gwych yn y gymuned i gadw'n heini. Boed hynny'n gwirfoddoli mewn gardd gymunedol, Natur Er Budd Iechyd, neu weithgareddau fel Siediau Dynion. Os ydych angen unrhyw wybodaeth ar weithgareddau lleol yn eich ardal chi, neu os ydych eisiau dechrau gwneud rhywbeth eich hun, gallwn helpu, felly cysylltwch â ni. Mae gweithgareddau i blant ifanc, pobl ifanc a phobl hŷn, sy'n amrywio o chwarae a chwaraeon i gelf a chrefft.

Cewch hefyd fwy o wybodaeth am bethau i'w gwneud yn eich cymuned neu ardal leol drwy fynd i **www.dewis.cymru** neu sgwrsio gyda Llyw-wyr Cymunedol y Cyngor. I gael rhagor o wybodaeth am y Llyw-wyr, neu i gael mynediad at gefnogaeth, cysylltwch â Thîm Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych trwy ffonio **0300 456 1000** neu **e-bostio spoa@denbighshire.gov.uk.**

Mae llawer o wybodaeth yn y newyddlen hon am eich cartref, digwyddiadau cymunedol, rhaglenni rydym yn eu darparu a gwasanaethau eraill. Rydym eisiau cyfathrebu, ymgysylltu a gwrando arnoch chi cymaint ag y gallwn, felly rhowch wybod os oes unrhyw beth rydych chi eisiau ei wybod neu'n credu y dylem fod yn ei rannu gyda chi. Rydym yn mwynhau ymweld â chymunedau, canolfannau cymunedol, a threfnu digwyddiadau wyneb yn wyneb, felly os ydych eisiau i ni ymweld â'ch cymuned yr haf hwn, rhowch wybod i ni.

## Yn y rhifyn hwn:

### Tai Sir Ddinbych:


2 Neges gan Geoff
3 Neges gan DTARF
6-7 STAR


### Cymuned a Phobl:


4 Dewch i gyfarfod
5 Llys Llên
10 Lansio Llais Ieuenctid
11 Hyfforddiant Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru
16 Canolfannau Cymunedol


### Y Wybodaeth Ddiweddaraf a Chyngor:


8 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu tai
9 Gwaith wedi'i gynllunio
10 Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (i'w gadarnhau)
12-13 Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) – sut allwch chi helpu
14-15 Ymwybyddiaeth o dwyll
16 Pwyntiau Siarad


**Gellir ailgylchu'r 100% or newyddlen hon**

FSC www.fsc.org MIX Paper from responsible sources FSC® C006518

Unwaith y byddwch wedi darllen y newyddlen, gallwch ei rhoi ym mlwch uchaf eich Trolibocs sydd â chaead glas.





# Y wybodaeth ddiweddaraf am Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych

Helo bawb. Mae'r Ffederasiwn yn parhau i gyfarfod fel grŵp ac yn gwahodd rheolwyr o Dîm Tai Sir Ddinbych bob mis i drafod materion, pryderon ac unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth rydym yn ei gael ganddynt.



Rydym wedi cyfarfod yn ddiweddar i siarad am:

- Y newidiadau i wefan taisirddinbych.co.uk sy'n digwydd yr haf hwn.
- Syniadau am sut allwn ni ymgysylltu gyda mwy o denantiaid.
- Pam fod cyfathrebu dwyffordd yn bwysig.

Rydym yn parhau i gydweithio gan hefyd sicrhau ein bod yn codi eich pryderon ac yn herio'r Tîm Tai am eu gwasanaeth.

Mae hwn yn gyfnod anodd i aelwydydd a chymunedau, felly rydym ni bob amser yma i helpu os byddwch angen unrhyw beth. Cysylltwch â ni. Gallwch hefyd ein dilyn/hoffi ni ar Facebook **https://www.facebook.com/DTARF**

Mae'r Ffederasiwn wedi cynrychioli holl denantiaid y Cyngor yn Sir Ddinbych ers 1996 ac mae'n bwysig i ni barhau i wneud hynny, felly mae croeso i chi ymuno â ni neu gysylltu ar unrhyw adeg.

**John, Cadeirydd DTARF**
**dtarf1@outlook.com**

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

## NEGESFWRDD

**I roi gwybod am unrhyw fateriom cynnal a chadw, cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid:**

Dydd Llun i ddydd Iau 9:00am-5:00pm,
Dydd Gwener 9:00am-4:30pm
**01824 706000**

Argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa
**0300 123 3068**

Galw Gofal (Llinell Ofal)
**0300 123 6688**

Un Pwynt Mynediad ar gyfer atgyfeiriadau am gefnogaeth
**0300 456 1000**

Argyfwng nwy **0800 111 999**

Argyfwng trydan **0800 3163 105**

Galw Iechyd Cymru **111**

Floodline **0345 988 1188**

Type Talk **0345 602 6340**

# Dod i'n hadnabod ni'n well

## Taflu Goleuni ar y Tîm – Y Tîm Cymorth Tenantiaeth.

**Beth yw rôl eich tîm?**

Rôl ein tîm yw cefnogi pobl sy'n cael trafferth gydag unrhyw beth a allai roi eu tenantiaeth mewn perygl. Rydym yma i'ch helpu chi i ddod o hyd i ddatrysiadau realistig a chefnogi pobl i fyw yn ddiogel ac yn gyfforddus yn eu cartrefi.

Gallwn gynnig cymorth ac arweiniad gydag; anawsterau ariannol a dyledion, rheoli eich cartref, iechyd a lles, argyfyngau neu os ydych yn teimlo fel pe baech wedi'ch llethu.

**Beth yw'r peth gorau am eich swydd?**

Mae'n swydd sy'n rhoi boddhad mawr, lle'r ydym wastad yn dysgu pethau newydd.

Rydym yn falch iawn o fod yn rhan o dîm sydd bob amser yn gweithio i wneud gwahaniaeth i fywydau unigolion.

Mae'n rhoi boddhad mawr gwybod ein bod wedi cefnogi unigolion i oresgyn heriau a dod o hyd i ddatrysiadau, yn aml i sefyllfaoedd nad oeddent yn gweld ffordd allan ohonynt. Yn enwedig gwybod bod yr unigolion hynny wedi cael yr hyder i symud ymlaen yn annibynnol.

**Disgrifiwch ddiwrnod arferol**

Nid oes yr un dau ddiwrnod yr un fath, mae pob diwrnod yn wahanol sy'n helpu i gadw'r rôl yn ddiddorol. Heddiw efallai byddwn yn helpu i ryddhau rhywun o ddyled ac yfory efallai byddwn yn helpu rhywun i gofrestru ar gyfer Tai-Chi.

Rydym allan ac yn mynd o gwmpas y sir bron bob diwrnod gan ymweld â thenantiaid i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â thenantiaeth. Rydym yn aml yn cwrdd â thenantiaid yn eu cartrefi eu hunain ond rydym hefyd yn cwrdd â nhw am goffi neu dro allan yn y gymuned os yw hynny'n gwneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus.

Rydym yn aml yn cefnogi pobl i gael mynediad at gefnogaeth o fannau eraill hefyd, drwy gefnogi gydag apwyntiadau gyda Chyngor ar Bopeth, budd-daliadau, iechyd ac ati, un ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

**Beth hoffech chi i'n tenantiaid wybod am eich tîm?**

Hoffem i'n tenantiaid wybod ein bod yma i'ch helpu chi.

Rydym yn gwbl anfeirniadol a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chi ac yn archwilio eich holl opsiynau ac yn eich helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau.

Rydym yn deall fod pobl weithiau yn cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd am wahanol resymau a byddwn yn gwneud ein gorau i'ch cefnogi chi i ddod o hyd i ffordd o oresgyn y rhain.

Rydym yn credu mai chi yw'r arbenigwyr ar eich bywydau, ac mai chi sy'n gwybod beth yw'r datrysiadau gorau i chi, ond os nad ydych, byddwn yn eich helpu i ddod o hyd iddynt.

Rydym yma i'ch cefnogi chi fel eich bod yn gallu byw yn gyfforddus ac yn ddiogel yn eich cartref

### Rhywfaint o adborth gan denantiaid

*'Rwyf wedi bod yn gwneud fy ngorau i atal fy hun rhag colli'r eiddo, ac ni fyddwn wedi gallu gwneud hyn heb gymorth ac arweiniad gan y Tîm Cymorth Tenantiaeth. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am fod yn amyneddgar gyda mi ac am eich holl garedigrwydd'.*

*'Roeddwn yn cael rhywfaint o broblemau ariannol ac roedd pethau'n mynd yn ormod i mi. Dechreuais anwybyddu fy mhroblemau ac roedd sefyllfaoedd yn gwaethygu ond roeddwn i'n teimlo cywilydd. Roedd y Tîm Cymorth Tenantiaeth yn gymorth mawr a chefais lawer o wybodaeth ganddynt i fy helpu. Roedd hi'n gefnogol iawn ac yn llawn anogaeth. Ni wnaeth hi byth wneud i mi deimlo cywilydd am fy sefyllfa'.*

*' hebddoch chi, ni fyddwn wedi gallu gwneud unrhyw beth ein hunain, pan wnaethom droi atoch chi roeddech bob amser yn ein helpu.*

*Rydych yn bobl dda a charedig iawn. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cymorth gwych'.*





# Tenantiaid Tai Sir Ddinbych yn creu cymuned gref mewn datblygiad tai newydd sbon ym Mhrestatyn.

Cynhaliodd Tai Sir Ddinbych ddigwyddiad yn ddiweddar i helpu tenantiaid Llys Llên i gwrdd â'u cymdogion newydd a chael sgwrs â staff am eu cartrefi newydd ar safle'r hen lyfrgell ym Mhrestatyn.





Daeth y tenantiaid ynghyd i roi cynnig ar argraffu torluniau leino, chwarae gemau boccia yn erbyn ei gilydd a siarad â'n Tîm Gwytnwch Cymunedol a'r Llywiwr Cymunedol lleol er mwyn dysgu am gefnogaeth gymunedol addas sydd ar gael.

Datblygiad i bobl 55 oed a hŷn yw Llys Llên. Codwyd adeilad newydd sbon ar y safle sy'n cynnwys pedwar ar ddeg o fflatiau un llofft sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, a dau o unedau ar y llawr gwaelod nad ydynt yn rhai preswyl. Dyluniwyd pob un o'r cartrefi i ddefnyddio ynni'n effeithlon iawn er mwyn cefnogi'r tenantiaid newydd â chostau byw a helpu Cyngor Sir Ddinbych a Chymru i gyflawni'r targedau ar gyfer lleihau allyriadau carbon.

Mae'r cartrefi newydd hyn ym Mhrestatyn yn dangos ymrwymiad Tai Sir Ddinbych a'r Cyngor i gwtogi ar yr amseroedd y mae pobl yn aros am lety drwy ddarparu mwy o dai cymdeithasol angenrheidiol yn y sir.

'Bendigedig' oedd disgrifiad Maureen Jones o'i fflat newydd yn Llys Llên, wrth iddi fwynhau cwrdd â'i chymdogion newydd yn nigwyddiad Tai Sir Ddinbych.

Meddai, "Dydyn nhw (Tai Sir Ddinbych) heb anghofio dim byd, rydw i wrth fy modd yn sgwrsio ac mae pawb mor glên. Mae gen i olygfa hyfryd o Foel Hiraddug ac rydw i'n medru eistedd yn gwylio'r machlud, mae hi mor hyfryd."

Dywedodd Sharon Smith, "Dwi'n hoffi popeth am fy fflat, yn enwedig y ffenestri hyfryd, y ffordd mae'r haul yn tywynnu drwodd i'r ystafell fyw, mae 'na hen ddigon o le yma ac mae gen i wardrob fawr grand yn fy llofft."

Daeth y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau Cyngor Sir Ddinbych, i'r digwyddiad i gwrdd â'r tenantiaid newydd a chael ei dywys o amgylch un o'r fflatiau.

Meddai: "Mae'r fflatiau newydd yma'n ddigon o ryfeddod. O siarad â rhai o'r trigolion, mae hwythau hefyd yn fodlon dros ben. Mae'n wych gweld cynifer o denantiaid a staff yma, yn sgwrsio am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw a'r ffordd maen nhw wedi setlo yn eu cartrefi newydd."

# Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR) – ‘Dywedoch chi, gwnaethom ni neu gallem ni ddim.’

Yn ystod yr haf, byddwn yn cysylltu â chi drwy lythyr, e-bost a neges destun i gwblhau ein Harolwg Tenantiaid a Phreswylwyr nesaf, felly cadwch lygad amdano!

Cawsom ymateb gwych i’n harolwg diwethaf, gyda dros 893 o ymatebion (28%), lle’r oedd 890 ohonynt wedi’u darparu ar-lein. Hwn oedd ein cyfradd ymateb uchaf hyd yma, ond rydym eisiau gwneud hyd yn oed yn well y tro hwn.

**Mae eich safbwyntiau a’ch adborth yn bwysig i ni, gan roi gwybod i ni sut ydym yn gwneud a lle allwn ni wella. Gwnewch yn siŵr, os ydych yn cael neges destun, e-bost neu lythyr gyda dolen i’r arolwg, eich bod yn rhoi rhywfaint o funudau i’w gwblhau.**

Yn ein newyddlen y Gwanwyn/Haf 2024, bu i ni rannu’r prif ganlyniadau o’r STAR diwethaf, yn cynnwys:

### Eich prif flaenoriaethau:

- Gwella ansawdd ein heiddo
- Ymgymryd â gwaith atgyweirio’n gynt a chwblhau gwaith atgyweirio sydd heb gael ei wneud
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Gwrando ar denantiaid
- Cyfathrebu gwell
- Yn ogystal â hynny, nododd 85% ohonoch eich bod yn fodlon ag ansawdd cyffredinol eich cartref. Bydd rhagor o waith yn cael ei gwblhau i ystyried manylion y sylwadau er mwyn ein galluogi i ddatblygu ein hymateb a byddwn yn cynnwys diweddariad “Dywedoch Chi - Gwnaethom Ni” yn ein newyddlenni rheolaidd.

### Beth nesaf?

Bydd y cynllun gweithredu cychwynnol yn canolbwyntio ar y camau canlynol:

- Cyfathrebu sut bydd gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC 2) yn cael effaith ar ein gwelliannau eiddo a sut a phryd fydd rhaglenni’n cael eu darparu.
- Adolygu ein Polisi Atgyweirio - bydd hyn yn cynnwys ymgysylltiad mwy manwl â thenantiaid.
- Dadansoddiad o sylwadau am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a meysydd daearyddol ble mae yna lai o fodlonrwydd.
- Datblygu ein Cynllun Ymgysylltu gyda DTARF i edrych ar ffyrdd y gallwn wella cyfathrebu a deall sut y gallwn wrando mwy ar ein cwsmeriaid.

### Y meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt::

- Sefydlu fforwm atgyweiriadau gyda thenantiaid i edrych ar ffyrdd y gallwn ddatblygu ein gwasanaethau atgyweiriadau a chynnal a chadw.
- Mynd allan i’n cymunedau yn amlach a chynnal digwyddiadau a sioeau teithiol yn ein cymunedau.
- Ail-sefydlu ein cefnogwyr “Ceidwaid Gwyrdd” i helpu i fonitro’r gwasanaeth cynnal tiroedd a sicrhau gwerth am arian am daliadau gwasanaeth.

## ‘Dywedoch chi, gwnaethom ni, neu gallem ni ddim.’

**Yn dilyn ein Harolwg Tenantiaid a Phreswylwyr diweddar, roeddem eisiau eich diweddaru ynglŷn â sut y byddwn yn mynd ati i weithio ar eich prif flaenoriaethau:**

### Cyflwr rhai o’ch cartrefi:

Byddwn yn nodi gwelliannau i’n heiddo fel rhan o’n rhaglenni gwella parhaus. Rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer y Safonau Ansawdd Tai Cymru nesaf, a fydd yn pennu ein rhaglenni ar gyfer y dyfodol, ac mae gennym gynllun i ymgysylltu â’n tenantiaid am hyn yn 25/26. Mae gwybodaeth fanwl am beth y bydd hyn yn ei olygu ar dudalen 12.

Rydym wedi profi peth oedi, yn enwedig gyda’r gwaith ar geginau, oherwydd yr angen i adennill tir ar ôl aflonyddwch y pandemig a chynnydd sylweddol yn y costau, ond rydym yn hyderus y byddwn yn ôl ar y trywydd iawn yn fuan.

### Gwneud gwaith atgyweirio yn gynt:

Dywedodd sawl un ohonoch fod y gwasanaeth atgyweirio wedi rhagori ar eich disgwyliadau, a dywedodd eraill y dylem wneud gwaith atgyweirio yn gynt. I wella’r gwasanaeth hwn, rydym eisiau buddsoddi mewn system gyfrifiadurol a fydd yn ein helpu i wella ein gwasanaeth atgyweirio yn y dyfodol. Byddwn yn gweithio gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ac yn defnyddio canlyniadau ein Harolwg Tenantiaid a Phreswylwyr nesaf (haf 2025, cadwch olwg amdano!) i siapio sut y bydd hyn yn edrych.



### Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion yn ymwneud â chyffuriau:

Rydym wedi bod yn gweithio’n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid eraill ar ymddygiad negyddol yn ein cymunedau. Mae hyn wedi arwain at droi allan, cael gwaharddebau gan y Llys Sirol, a chyhoeddi Contractau Ymddygiad Derbyniol. Mae’r rhain i gyd yn ffyrdd yr ydym yn gweithio gyda’n gilydd i wneud ein cymunedau’n fwy diogel. Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd i newid ymddygiad gan sicrhau ein bod yn gweithredu pan fo angen.

### Gwrando ar denantiaid:

Mae ein staff wedi cael hyfforddiant ar ffyrdd i wella sgiliau gwrando ac adrodd yn ôl i’n tenantiaid. Er enghraifft, mae hyn wedi ein helpu i egluro i denantiaid pam nad ydym yn gallu gwneud rhywbeth y maent wedi gofyn i ni ei wneud. Rydym eisiau gwella ein natur agored a thryloyw, gan fod yn onest ac yn atebol pan nad ydym yn gallu cyflawni rhai pethau ar adeg benodol. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn gwella eich ymddiriedaeth ynom ni.

### Cyfathrebu:

Rydym yn parhau i weithio gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ar fateion pwysig sy’n effeithio arnoch chi. Rydym hefyd yn gweithio gyda’r Ffederasiwn i gynyddu eu haelodaeth a chynrychiolaeth yn 2025/ 26. Os hoffech chi ddysgu mwy, neu sut y gallech ymuno, edrychwch ar y wybodaeth ar dudalen 3.

Rydym wedi adolygu ein sianeli digidol ac rydym yn gwella ein gwefan dros yr haf, gyda mewnbwn gan denantiaid ynglŷn â’r hyn yr hoffent weld yn cael ei gynnwys. Mae ein sianeli cyfryngau cymdeithasol bellach yn fwy syml ac yn cynnwys yr hyn sydd gan denantiaid ddiddordeb ynddo, gan wella ymgysylltiad a ffyrdd o rannu beth sy’n digwydd. Dilynwch ni ar Facebook @ TaiSirDdinbych i weld negeseuon gwasanaeth a phobl, neu sganiwch yma i’n dilyn ni ar Instagram i gael ymdeimlad o falchder yn lle mae ein tenantiaid yn byw.

Dilynwch ni ar Facebook **@TaiSirDdinbych**. Ar gyfer postiadau gwasanaeth a phobl, neu sgania yma i ddilyn ni ar Instagram i gael teimlad o falchder o ble mae ein tenantiad yn byw.

TAISIRDDINBYCH

## STAR YSTADEGAU

| Pwnc | Canlyniad | Manylion |
|---|---|---|
| Gwasanaeth cyffredinol | Dywedodd 85% | ohonoch eich bod yn fodlon â’r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwn |
| Ansawdd y cartref | Dywedodd 82% | ohonoch eich bod yn fodlon ag ansawdd cyffredinol eu cartref |
| Atgyweiriadau | Dywedodd 79% | ohonoch eich bod yn fodlon â’r ffordd yr ydym yn delio ag atgyweiriadau a chynnal a chadw |
| Rhent | Dywedodd 86% | ohonoch eich bod yn fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian |
| Gwrandewch a gweithredwch | Dywedodd 64% | ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn gwrando ac yn gweithredu ar yr hyn rydych chi’n ei ddweud |
| Eich dweud | Dywedodd 63% | ohonoch eich bod yn fodlon bod gennych lais yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli |
| Taliadau Gwasanaeth | Dywedodd 69% | ohonoch eich bod yn fodlon bod eu tâl gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian |
| Penderfyniadau | Dywedodd 57% | ohonoch eich bod yn fodlon ar y cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | Dywedodd 62% | ohonoch eich bod yn fodlon â’r ffordd yr ydym yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| Cymdogaeth | Dywedodd 82% | ohonoch eich bod yn fodlon â’ch cymdogaeth fel lle i fyw |
| Saff ac yn ddiogel | Dywedodd 84% | ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn darparu cartref sy’n ddiogel ac yn ddiogel |
| Hawdd delio â | Dywedodd 83% | ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn hawdd delio â ni |
| Cyfraniad cadarnhaol | Dywedodd 67% | ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i’ch cymdogaeth |
| Ymddiried | Dywedodd 74% | ohonoch eich bod yn ymddiried mewn Tai Sir Ddinbych |

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddatblygiad Tai

Rydym fel arfer y rhoi diweddariad i chi ar ein rhaglen adeiladu tai newydd ond yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar ddau brosiect sy'n cynnwys trosi adeiladau presennol i ddarparu tai Cyngor ychwanegol.

### Aquarium Street, Y Rhyl:

Yn yr haf 2022, ysgrifennom am deras o wyth tŷ a brynom gan Lywodraeth Cymru yn Aquarium Street yn y Rhyl.

Roedd yr eiddo hyn wedi cael eu defnyddio'n bennaf fel Tai Amlfeddiannaeth yn flaenorol a oedd yn cynnwys fflatiau bach gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi a rennir.

Prynwyd nhw gan Lywodraeth Cymru fel rhan o gynllun adfywio ehangach i wella ardal Orllewinol y Rhyl. Ers hynny, rydym wedi atgyweirio cragen allanol y teras ac ar ddechrau'r flwyddyn, dechreuodd TG Williams Builders, contractwyr sydd wedi'u lleoli yn Llanelwy, ar y gwaith o ddodrefnu'r tu mewn i'r tai. Mae hyn yn cynnwys trosi pob eiddo i gartref pedair ystafell wely, gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd a lloriau a gorffeniadau newydd. Mae systemau gwresogi newydd yn cael eu gosod sy'n cael eu pweru gan bympiau gwres yr awyr, felly nid oes angen cyflenwad nwy. Mae'r tai hyn yn edrych dros fan gwyrdd Gerddi Heulwen ac maent o fewn pellter cerdded i'r traeth a disgwylir i'r gwaith dodrefnu gael ei gwblhau tua diwedd y flwyddyn.



### Hen Swyddfa'r Post, Y Rhyl:

Eiddo arall lle bydd gwaith trosi yn dechrau yn ddiweddarach eleni yw adeilad yr Hen Swyddfa'r Post ar Ffordd Wellington yn y Rhyl. Prynodd Cyngor Sir Ddinbych yr hen Swyddfa'r Post ar gornel Stryd y Dŵr a Ffordd Wellington gyda'r bwriad o ddymchwel y bloc tri llawr a adeiladwyd yn yr 1960au i ddarparu maes parcio arhosiad byr yng nghanol y dref. Cafodd adeilad Fictoraidd bric coch gwreiddiol y Swyddfa'r Post drws nesaf i Les & Rita's Fish Bar ei gadw ac mae caniatâd cynllunio wedi'i roi i drosi lloriau uchaf yr adeilad yn fflatiau ar gyfer Tai Sir Ddinbych. Mae'r gwaith trosi yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru trwy'r rhaglen Trawsnewid Trefi.



### Newyddion arall:

O fewn ein rhaglen adeiladu newydd, rydym wedi penodi contractwr yn ddiweddar i gwblhau'r gwaith dodrefnu yng nghartrefi Passivhaus newydd y Cygor yn Llwyn Eirin yn Ninbych a byddwn yn cynnwys y cartrefi hyn yn ein rhifyn nesaf.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Y wybodaeth ddiweddaraf am waith wedi'i gynllunio

Mae gennym rywfaint o brosiectau sy'n digwydd ar hyn o bryd i osod toeau a phaneli solar newydd. Mae'r rhain yn cynnwys: • Lloyds Avenue, Dynbych • Maes Hyfryd, Rhuthun • Gwynfryn Avenue, y Rhyl • Brooks Avenue, y Rhyl

Dylai'r gwelliannau hyn helpu ein tenantiaid i leihau eu defnydd ynni a gobeithio lleihau eu biliau ynni. Mae gwaith hefyd wedi dechrau i insiwleiddio wal allanol ar rai o'r eiddo hyn, gan helpu cartrefi i aros yn gynhesach am hirach. Dylid cwblhau'r rhain erbyn yr haf.









### Prosiect Gwella Systemau Gwresogi Cysgodfa, Dinbych

Rydym wedi cwblhau prosiect gwella'r boeler cymunedol yng Nghysgodfa. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys disodli'r hen foeleri nwy aneffeithlon gyda boeleri cyddwyso newydd, effeithlonrwydd uchel. Bydd yn sicrhau bod y system wresogi yn parhau i fod yn ddibynadwy a chost effeithiol i'n tenantiaid am flynyddoedd i ddod.

Fel rhan o'r prosiect, rydym hefyd wedi gosod gwresogyddion dŵr newydd a rheolyddion gwres ym mhob fflat. Bydd hyn yn helpu tenantiaid i reoli tymheredd eu cartrefi a chynnal amgylchedd byw cyson a chyfforddus. Mae'r gwelliannau hyn wedi'u dylunio i wella effeithlonrwydd ynni a chyfforddusrwydd tenantiaid yn ogystal â lleihau ôl-troed carbon y Cyngor.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Taliadau Tai Dewisol

**Bwriad Taliadau Tai Dewisol yw helpu pobl gyda chostau rhent parhaus, blaendaliadau a/neu gostau symud.**

**Pwy fyddai'n gymwys?**

Dim ond i bobl sy'n dioddef caledi eithriadol neu sydd ag amgylchiadau eithriadol y gellir talu Taliadau Tai Dewisol. Rhaid i'r canlynol fod yn berthnasol hefyd:

- Rhaid bod gan yr hawlydd hawl i Fudd-dal Tai neu Gostau Tai trwy Gredyd Cynhwysol
- Rhaid iddynt fod angen cymorth pellach gyda chostau tai
- Rhaid i'r Cyngor gael digon o arian i dalu'r gost

**Ni allwn wneud taliad am:**

- Daliadau gwasanaeth
- Daliadau am wasanaethau dŵr neu garthffosiaeth
- Rent lle rydych yn gymwys i gael Gostyngiad yn y Dreth Gyngor yn unig
- Dalu am unrhyw ddiffyg mewn Budd-dal Tai oherwydd bod gordaliad yn cael ei adennill

**Sut mae taliadau'n cael eu gwneud?**

Gall taliadau a ddyfernir i helpu gyda rhent gael eu talu naill ai i chi neu i'ch landlord.

Telir taliadau a ddyfernir tuag at flaendal neu gostau symud yn uniongyrchol i'r landlord neu'r cwmni symud.

Gellir gwneud pob cais ar-lein yn: **www.sirddinbych.gov.uk/budd-daliadau**

Am unrhyw wybodaeth bellach cysylltwch â **01824 706000**

# Lansio Llais Ieuenctid:

## Ym mis Chwefror, lansiodd Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych ei fenter Llais Ieuenctid yn swyddogol yn Neuadd Ymarfer Canolfan Ieuenctid Rhuthun.

Bwriad y rhaglen hon yw ymgysylltu pobl ifanc (rhwng 11 a 25 oed) mewn prosiectau llais ieuenctid, gan roi cyfleoedd mynediad agored ar draws y sir, ochr yn ochr â dyddiau ymgysylltu cymunedol lleol a gweithdai wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar ddatblygu llais ieuenctid.

Mae'r fenter Llais Ieuenctid hefyd yn cynnwys Cyngor yr Ifanc ar draws y sir sy'n cyfarfod ar-lein bob yn ail wythnos ac wyneb yn wyneb unwaith y mis.

Rhoddodd y digwyddiad lansio ar 26 Chwefror gyfle i bobl ifanc archwilio materion pwysig, yn cynnwys:

- Tlodi bwyd
- Mannau cymunedol diogel
- Lles cadarnhaol
- Digartrefedd

Dywedodd Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd Sir Ddinbych - Y Cynghorydd Diane King:

"Roedd yn bleser gweld cymaint o bobl ifanc yn y digwyddiad, gan dynnu sylw at bwysigrwydd eu lleisiau sy'n bwysig iawn i ni fel Cyngor.

Yn Sir Ddinbych, rydym eisiau gweld cymunedau lle gall pobl ifanc fod yn rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, lle mae ganddynt ofod diogel i rannu eu profiadau a dylanwadu ar wneud polisïau, yn cynnwys ar bynciau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae'r bobl ifanc a wnes i eu cyfarfod yn oedolion yfory a'n dyfodol, mae ganddynt yr hawl i wybod y gallant chwarae rôl ystyrlon mewn democratiaeth leol ac efallai dod yn wleidyddion neu asiantiaid newid cymdeithasol yn y dyfodol."

Galluogodd y digwyddiad hwn i'r cyfranogwyr gysylltu â ffigurau allweddol fel penaethiaid gwasanaeth, cynghorwyr ac aelodau arweiniol. Hoffai'r tîm Llais Ieuenctid ddiolch i Liz Grieves, y Cynghorydd Rhys Thomas a'r Cynghorydd Diane King am eu cyfranogiad gweithredol a'u cefnogaeth.

Os ydych chi'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am y fenter Llais Ieuenctid, cysylltwch â: **sarah.elizabeth.jones@denbighshire.gov.uk**









# Mae'r Gwanwyn wedi cyrraedd gyda'n tîm Gwytnwch Cymunedol!

## Ers ein newyddlen ddiwethaf, mae'r tîm Gwytnwch Cymunedol yn parhau i fynd ar grwydr.

Ers ein newyddlen ddiwethaf, mae'r tîm Gwytnwch Cymunedol yn parhau i fynd ar grwydr. Rydym yn credu bod cefnogi cymunedau cryf a bywiog yn rhan hanfodol o'n rôl, ac i helpu gyda hyn mae'r tîm wedi darparu a gweithio mewn partneriaeth i ddarparu sesiynau a digwyddiadau ar draws ein cymunedau lleol, yn cynnwys:

- Digwyddiadau hwyl y Pasg
- Datblygu mannau awyr agored o safon
- Sesiynau rhwng cenedlaethau
- Sesiynau celf a chrefft wythnosol

Hoffem ddiolch i bawb a ddaeth i'n digwyddiadau'r gwanwyn hwn!

**Y Pasg:**
Dros y Pasg, fe wnaethom drefnu gweithgareddau am ddim ar draws Dyffryn Dyfrdwy, yn cynnwys Llangollen a Chorwen. Fe wnaethom ymuno â Hamdden Sir Ddinbych a Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor i gynnal diwrnodau hwyl i deuluoedd, gan ddefnyddio'r ysgol leol a gerddi cymunedol, lle'r oedd cyfle i breswylwyr roi cynnig ar greu baneri thematig a chelf i'w roi ar wal.

Gan symud i fyny i'r gogledd, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth â phreswylwyr lleol a chynghorwyr, Dyfodol Disglair, Gwasanaethau Cefn Gwlad, Natur Er Budd Iechyd, Hamdden Sir Ddinbych a'r Prosiect Celf Dotiau. Fe wnaethom drefnu dau ddigwyddiad a oedd yn llwyddiannus iawn, er i'r glaw geisio difetha un ohonynt!... Roedd gweithgareddau'n cynnwys creu peli hadau, helfa wyau Pasg, peintio potiau planhigion, celf a chrefft, chwaraeon ac arwerthiannau pen bwrdd.






## Sesiynau Rhwng Cenedlaethau:

Yn ddiweddar, fe wnaethom weithio gyda chartref gofal lleol, Cysgod y Gaer, yn cefnogi preswylwyr i gymryd rhan mewn sesiwn gelf rhwng cenedlaethau. Braf iawn oedd gweld y gymuned, preswylwyr a phlant yn dod at ei gilydd i greu cynhwysydd bwyd adar, crefftau naturiol a chymryd rhan mewn helfa wyau Pasg!



Yn ein tai gwarchod i bobl hŷn yng Nghorwen, fe wnaeth preswylwyr Llygadog gynnal digwyddiad agoriadol gyda Natur Er Budd Iechyd i ddathlu eu hiard newydd! Daeth y preswylwyr ynghyd ar ddiwrnod braf i blannu yn y potiau plannu newydd, torheulo yn eu hardaloedd eistedd newydd a mwynhau diod oer. Yn yr adborth o'r diwrnod, dywedodd rai preswylwyr eu bod yn credu bod ymdeimlad o gymuned yn dychwelyd i'r ardal.

Mae ein preswylwyr yn Llys Y Felin, Llanelwy, wedi mwynhau mynychu sesiynau celf a chwaraeon rheolaidd gan Hamdden Sir Ddinbych, chwarae boccia, dysgu



sut i wneud stampiau, gweithio gyda chlai sych a phrintio gyda deunyddiau naturiol.

Cadwch lygad ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth i sicrhau nad ydych yn methu unrhyw un o'n gweithgareddau hwyliog!

# Cyflwyno'r Safon Ansawdd Tai Cymru newydd (SATC 2023)
## – Beth mae'n ei olygu i chi!

Yn ein newyddlen ddiwethaf, bu i ni gyflwyno'r SATC 2023 newydd, gan egluro beth mae'n ei olygu i chi a sut byddwn yn mynd ati i'w ddarparu. Yn y rhifyn hwn, roeddem eisiau rhannu mwy o wybodaeth gyda chi am yr hyn y mae'r safonau yn ei gynnwys a beth y mae'n ei olygu i chi.

### 1. Beth yw Safon Ansawdd Tai Cymru 2023?

Ym mis Hydref 2023, cyflwynodd LIC set newydd o safonau ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd da i denantiaid, sy'n addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol a'r dyfodol.

### 2. Beth yw'r prif bethau sydd wedi'u cynnwys yn y safonau newydd

Er mwyn i ni fodloni safonau LIC, mae'n rhaid i'ch cartrefi:

- **Fod mewn cyflwr da**
  - Mae'n rhaid i'r waliau fod mewn cyflwr da, ac nid yn wan nac yn disgyn i lawr
  - Ni ddylech fod â thamprwydd yn eich cartref.
  - Dylai'r grisiau fod yn ddiogel.

- **Bod yn saff a diogel**
  - **Dylai drysau a ffenestri** fod yn saff a diogel. Byddwn yn dilyn canllawiau'r Heddlu Diogelu drwy Ddylunio i weld sut allwn ni wneud hyns.
  - **Diogelwch tân:** mae'n rhaid i gartrefi gael synwyryddion gwres a mwg.
  - Mae'n rhaid i chi gael ffordd hawdd a diogel i **ddianc os oes tân**
  - **Diogelwch nwy a gwresogi:** mae'n rhaid i gartrefi gael synhwyrydd carbon monocsid.
  - **Gwiriadau diogelwch yn y cartref:** os oes gan gartrefi systemau nwy, olew neu danwydd solet, mae'n rhaid i ni gynnal gwiriad diogelwch unwaith y flwyddyn. Mae'n rhaid i ni roi copi i chi o'r gwiriadau diogelwch.
  - **Diogelwch trydanol:** dylai eich cartref gael gwiriad diogelwch trydanol bob 5 mlynedd, a byddwn yn rhoi copi i chi.

- **Ni ddylai fod yn rhy ddrud i'w wresogi. Ac ni ddylai fod yn niweidiol i'r amgylchedd.**
  - Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw gwresogi eich cartref yn costio gormod o arian. A sicrhau nad yw'n niweidiol i'r amgylchedd.
  - Mae'n rhaid i'ch cartref adael i aer lifo drwyddo, yn enwedig mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi.
  - Dylai fod gan eich cartrefi osodiadau a chyfarpar sy'n atal dŵr rhag cael ei wastraffu. Gall hyn eich helpu i gadw eich biliau dŵr i lawr ac mae'n dda i'r amgylchedd

- **Yn cynnwys ardal amlbwrpas a chegin fodern**
  - Dylai'r ceginau fod yn llai na 16 oed, oni bai eu bod mewn cyflwr da.
  - Dylai fod gan geginau newydd le ar gyfer popty, oergell a pheiriant golchi, a chyfarpar arall os oes angen.
  - Mae'n rhaid i loriau'r gegin fod yn rhai di-lithr.
  - Os nad oes unrhyw le i olchi a sychu dillad, dylem ddarparu peiriant sychu dillad.

- **Yn cynnwys ystafell ymolchi fodern**
  - Dylai'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau fod yn llai na 26 oed, oni bai eu bod mewn cyflwr da.
  - Mae'n rhaid i'r ystafell ymolchi fod â llawr di-lithr.
  - Ylent gynnwys cawod a bath os yw'n bosibl. Gall y gawod fod uwchben y bath.

- **Cyfforddus ac addas i'r sawl sy'n byw yno**
  - Dylai eich cartref fod â digon o le i fyw ynddo'n gyfforddus.
  - Lloriau – Pan fydd tenantiaid newydd yn symud i mewn, mae'n rhaid i'r holl ystafelloedd fod â'r math cywir o loriau a bod mewn cyflwr da.
  - Sŵn – Dylai'r waliau a'r ffenestri fod o ansawdd da, fel nad yw sŵn normal yn achosi unrhyw drafferth i chi.
  - Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y cartref yn addas i'ch anghenion, yn cynnwys tenantiaid anabl a hŷn.

- **Bod â gardd os yw'n bosibl**
  - Nid yw bob amser yn bosibl cael gardd gan ei fod yn dibynnu ar le rydych chi'n byw.
  - Dylech allu mynd i'ch gardd yn ddiogel ac yn hawdd.
  - Dylai fod llwybr i chi allu cerdded arno.
  - Os yw'n bosibl, dylem ddarparu lein sychu dillad, a dylai fod llwybr yn arwain ato.
  - Dylech fod â man storio y gellir ei gloi y tu allan. E.e. i storio beic neu offer gardd.

- **Bod â man braf y tu allan os yw'n bosibl**
  - Mae angen i ni geisio creu man braf y tu allan, sy'n hawdd i ofalu amdano.
  - Dylai'r gofod fod yn gyfeillgar i fywyd gwyllt.
  - Dylai fod digon o blanhigion a choed o gwmpas sydd hefyd yn gadael golau'r haul drwodd.
  - Os nad oes gennych chi eich gardd eich hun, dylem ddarparu digon o le storio y tu allan i chi ar gyfer beics, pramiau neu sgwteri symudedd.

### 3. Beth yw'r amserlenni?

**Dyma'r prif derfynau amser y byddwn yn gweithio tuag atynt:**

**31 Mawrth 2025:**

- Asesu cyflwr eich cartrefi fel ein bod yn gwybod beth sydd angen i ni ei wneud. I wneud hyn byddwn yn edrych ar y wybodaeth sydd gennym am eich cartrefi. Efallai bydd angen i ni ymweld â rhai o'ch cartrefi ond byddwn yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw os bydd angen i ni wneud hyn.
- Creu cynllun a chanfod faint fyddai cael eich cartrefi i'r safon yn ei gostio. Mae'n rhaid i ni roi hwn i LIC.
- Gweithio'n agos â chi a dangos beth fyddwn ni'n ei wneud fel y gallwch chi ddweud eich dweud. Byddwn yn gweithio'n agos ar hyn gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych.
- Diweddaru ein cynllun busnes i gynnwys unrhyw welliannau a gwaith sydd angen i ni ei wneud i gydymffurfio â safonau SATC 2023.

**31 Mawrth 2027:**

- Cynhyrchu ein Llwybrau Ynni Targed gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym o asesiadau eich cartref. Mae Llwybr Ynni Targed yn dangos i ni beth sydd angen i ni ei wneud i sicrhau bod gan eich cartref system wresogi y gallwch chi fforddio i'w droi ymlaen.

**31 Mawrth 2034:**

- Mae'n rhaid i ni fodloni'r safonau hyn.

### 4. Beth ydych chi wedi'i wneud hyd yma?

Hyd yma, rydym wedi bod yn gweithio drwy'r safonau SATC 2023 a rhoi cynllun gweithredu at ei gilydd y gallwn ni ei rannu â chi ym mis Mawrth 2025. Ym mis Gorffennaf, bu i ni ddiweddaru Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ar ein cynnydd a'r hyn yr oeddem am ei wneud nesaf.

I helpu i lywio'r gwaith, rydym hefyd wedi gwrando ar eich ymatebion yn yr arolwg STAR 2023 diweddaraf ac rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall sut yr hoffech i SATC 2023 gael ei siapio. Dros y misoedd nesaf, a thrwy gydol y rhaglen SATC 2023, byddwn yn cynnig cyfleoedd i chi ymgysylltu â ni a dweud wrthym beth sy'n bwysig i chi a'ch blaenoriaethau ar sut ydym yn darparu'r rhaglen hon i chi.

### 5. Sut fydd hyn yn cael ei ariannu?

Bydd y gwelliannau sydd eu hangen i fodloni'r safonau newydd yn cael eu hariannu gan ganran o Lwfans Atgyweiriadau Mawr LIC, cyllid grant arall a rhenti tenantiaid.

### 6. Sut allaf i gymryd rhan?

Rhan bwysig o'r safonau newydd hyn yw eich cyfranogiad a'ch ymgysylltiad yn y broses. Byddwn yn gweithio'n agos ar hyn gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ac rydym yn gobeithio sefydlu grŵp gorchwyl gyda thenantiaid yn y dyfodol.

Os hoffech fod yn rhan o Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, neu'n rhan o grŵp gorchwyl o denantiaid, a'n cefnogi ni i roi'r SATC ar waith, cysylltwch â ni ar **01824 706000** neu anfonwch e-bost at **housing@denbighshire.gov.uk**

### 7. Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth am beth mae'r safonau hyn yn ei gynnwys, ewch i https://www.llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-2023-0

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymwybyddiaeth o Dwyll::

Gyda chostau byw yn parhau i gynyddu, mae'n hawdd cael ein darbwyllo a chael pwysau gan dwyllwyr i feddwl y gallwch gael mwy o arian.

Ceisiwch sicrhau nad ydych yn cael eich twyllo mewn perthynas â:

- Adennill eich debydau uniongyrchol ar gyfer rhent neu dreth y Cyngor.
- Hawliad diffyg atgyweirio.

Mae gan y dudalen hon wybodaeth ddefnyddiol am y mathau hyn o dwyll, sut y gallwch amddiffyn eich hun, a ble i gael mwy o gymorth a gwybodaeth.

**Twyll Debyd Uniongyrchol**

Mae nifer o denantiaid pryderus sydd wedi cael cynnig ad-daliadau o daliadau debyd uniongyrchol a wnaed i dalu rhent a biliau eraill wedi cysylltu â ni.

Byddwch yn ymwybodol mai twyll yw hyn. Gallech fod ar eich colled gyda mwy o ddyled i'w ad-dalu.

Efallai y byddwch yn gweld hysbyseb neu bydd rhywun yn cysylltu â chi ar y cyfryngau cymdeithasol neu wyneb yn wyneb ynglŷn â gwneud arian yn hawdd ac yn gyflym trwy hawlio ad-daliadau ar eich debydau uniongyrchol trwy eich banc. Mae hyn yn cynnwys taliadau rhent.

Byddant yn gofyn i chi am eich manylion personol a'ch cyfrif banc, y byddant yn ei ddefnyddio i wneud cais am ad-daliad debyd uniongyrchol gyda'r banc.

Os gwneir yr ad-daliad, byddant yn cymryd 50% neu fwy o'ch arian fel taliad am adael i chi ddefnyddio'r gwasanaeth. Yna byddwch mewn dyled gyda'r cwmnïau y gwnaethoch y taliadau hyn iddynt. Rhaid ad-dalu'r ddyled hon.

Gallai hyn olygu eich bod mewn perygl o golli eich cartref, ailfeddiannu nwyddau neu orfod mynd i'r llys.

Mae rhannu eich manylion banc yn golygu y gellir cymryd arian o'ch cyfrif banc yn y dyfodol heb eich caniatâd.

Os ydych yn cael anawsterau ariannol, cysylltwch â ni ar **01824 706000**. Gallwn gynnig cefnogaeth i chi a'ch cyfeirio at arbenigwyr a all eich helpu i reoli eich arian

.




**Dyma ychydig o gyngor i gadw eich hun yn ddiogel rhag twyllwyr/sgamwyr:**

- Byddwch yn wyliadwrus o alwadau ffôn, llythyrau neu hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cynlluniau i wneud arian yn hawdd ac yn gyflym - twyll ydynt.
- Bydd twyllwyr yn gofyn i chi ddweud celwydd wrth y banc ynglŷn ag unrhyw geisiadau am daliad. Os dywedir wrthych am ddweud celwydd wrth y banc, twyll ydyw.
- Peidiwch byth â datgelu gwybodaeth am eich cyfrif banc, gan gynnwys manylion mewngofnodi, cyfrineiriau neu gyfrineiriau untro, wrth unrhyw un.
- Cofiwch, os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod.
- Os ydych yn poeni am dwyll, gallwch gysylltu ag Action Fraud trwy fynd i'w gwefan trwy glicio ar y ddolen hon neu ffoniwch 0300 123 2040 i roi gwybod am dwyll.

**Hawliadau Diffyg Atgyweirio Tai – Gwyliwch y twyllwyr**

Gwyddom fod pobl yn curo ar ddrysau, yn ffonio ac yn anfon negeseuon testun i'n tenantiaid gan eu hannog i gael iawndal ar sail "dim ffioedd, dim llwyddiant" ar gyfer hawliadau diffyg atgyweirio. Nid ydym eisiau dychryn pobl ac, yn sicr, nid ydym eisiau rhwystro tenantiaid rhag ein herio ni, ond byddwch yn ofalus.

- Gallwch wynebu costau os byddwch yn newid eich meddwl ac os byddwch yn aflwyddiannus yn y llys.
- Cafwyd adroddiadau diweddar yn y newyddion ynglŷn â thenant y Cyngor yn Efrog a gafodd ei dargedu gan gwmni cyfreithiol 'dim llwyddiant, dim ffioedd'. Ar ôl mynd â'u landlord i'r llys, ac ar ôl bod yn aflwyddiannus, cawsant orchymyn i dalu £7964.75 o gostau.
- Cafwyd achos 'dim llwyddiant, dim ffioedd' aflwyddiannus arall yn erbyn Cyngor yn 2023, a oedd yn golygu bod tenant wedi cael gorchymyn gan farnwr i dalu costau o £10,409.72.

Nid ydym eisiau i hyn ddigwydd i chi!

**Os oes gennych waith atgyweirio sydd angen ei wneud, yna:**

1. Gadewch i ni wybod drwy ein ffonio ar 01824 706000 neu anfon e-bost at tai@sirddinbych.gov.uk
2. Os nad ydych yn fodlon â sut rydym yn delio gyda'r gwaith, defnyddiwch ein gweithdrefn gwyno a byddwn yn edrych i mewn i'r mater.
3. Os byddwch yn dal yn anfodlon, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Cymru, sy'n gallu cynnig iawndal, ac ni fydd unrhyw gost am hyn.

**Dyma ychydig o gyngor i gadw eich hun yn ddiogel rhag twyllwyr/sgamwyr:**

- Byddwch yn wyliadwrus o alwadau ffôn, llythyrau neu hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cynlluniau i wneud arian yn hawdd ac yn gyflym - twyll ydynt.
- Bydd twyllwyr yn gofyn i chi ddweud celwydd wrth y banc ynglŷn ag unrhyw geisiadau am daliad. Os dywedir wrthych am ddweud celwydd wrth y banc, twyll ydyw.
- Peidiwch byth â datgelu gwybodaeth am eich cyfrif banc, gan gynnwys manylion mewngofnodi, cyfrineiriau neu gyfrineiriau untro, wrth unrhyw un.
- Cofiwch, os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod.



- Os ydych yn poeni am dwyll, gallwch gysylltu ag Action Fraud trwy fynd i'w gwefan http://action.fraud.police.uk/ http://action.fraud.police.uk/ neu ffoniwch 0300 123 2040 i roi gwybod am dwyll.

Mae gwefannau defnyddiol hefyd y gallwch edrych arnynt:

- **Os ydych wedi cael e-bost neu neges destun twyllodrus ac ati ond nid ydych wedi gwneud unrhyw beth, neu wedi cael profiad o wir drosedd: :**

– Gallwch roi gwybod am y rhain yn **https://www.ncsc.gov.uk/collection/phishing-scams**

- **Os ydych wedi cael eich twyllo:**

– Ffoniwch Action Fraud (Canolfan Genedlaethol ar gyfer Rhoi Gwybod am Dwyll a Seiberdroseddu) ar **0300 123 2040** neu ewch i **https://www.actionfraud.police.uk/reporting-fraud-and-cyber-crime**

– Cysylltwch â'ch banc, gan egluro'r twyll ac unrhyw daliad a wnaed.

- **Sut i osgoi galwadau a llythyrau twyll.** Mae dau sefydliad y gallwch gofrestru gyda nhw i geisio osgoi galwadau a llythyrau twyll. Nid ydynt yn stopio'r holl alwadau a llythyrau, ond gallant helpu:

– **https://www.tpsonline.org.uk/**


– **https://www.mpsonline.org.uk/**

Am ragor o wybodaeth ewch i: **https://www.denbighshirehousing.co.uk/scam-awareness/**

# Hyfforddiant Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru:

Cafodd grwpiau preswylwyr Tai Sir Ddinbych wahoddiad i fod yn rhan o hyfforddiant wedi'i ddarparu gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru gan archwilio rolau a chyfrifoldebau Grŵp Tenantiaid a Phreswylwyr.

Cafwyd trafodaethau gwych ynglŷn â'r gwahanol fathau o gymunedau a sut allant helpu'r tenantiaid a'r preswylwyr o fewn eu cymunedau. Roedd hefyd yn gyfle gwych i edrych yn ôl ar nodau presennol y grŵp a p'un a ydynt yn dal yn bwysig i'w cymuned benodol.




Agwedd arall o'r hyfforddiant hwn oedd edrych ar sut allwn gynnwys tenantiaid yn well gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, yr oeddent yn meddwl y dylai'r isod fod y prif ganlyniadau ar gyfer y Ffederasiwn, ynghyd â syniadau i gynnwys tenantiaid yn well:










## Pwyntiau Siarad

Mae Pwyntiau Siarad yn ffordd i bobl ddarganfod pa gymorth a chefnogaeth sydd ar gael i wella eu hiechyd a'u lles yn eu hardal leol. Maent yn darparu:

- gwybodaeth am beth sydd ar gael mewn ardal, fel gwasanaethau cymunedol, gweithgareddau neu grwpiau cefnogi
- sgwrs wyneb yn wyneb gyda Llywiwr Cymunedol am 'beth sy'n bwysig i chi', yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau'r trydydd sector sydd hefyd yn bresennol
- cyfle i rannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau i wella lles pobl eraill yn y gymuned.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
**https://www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/oedolion/pwyntiau-siarad.aspx**

Eich Pwyntiau Siarad
Cefnogi Annibyniaeth a Lles